***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1350 (Cy. 349)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 9.30 a.m. ar 1 Rhagfyr 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Rhagfyr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(2)(a) a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 174(4) a (5)(l) o'r Ddeddf honno.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

**Diwygio adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

**2.**—(1) Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (9), yn y diffiniad o "awdurdod cyhoeddus", ym mharagraff (e), ar ôl "awdurdod lleol" mewnosoder ", cyd-bwyllgor corfforedig".

(3) Yn is-adran (10), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);".

(**1**) 2021 dsc 1.
(**2**) 2016 dccc 3. Diwygiwyd adran 6 gan baragraff 46(a)(i) a (ii) o Ran 1 o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Am 9.30 a.m. ar 1 Rhagfyr 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3) er mwyn cynnwys cyd-bwyllgorau corfforedig yn y diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" yn is-adran (9) o'r adran honno, fel bod cyd-bwyllgorau corfforedig yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ("y ddyletswydd bioamrywiaeth"). O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, bydd yn ofynnol i gyd-bwyllgorau corfforedig ystyried Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru wrth wneud penderfyniadau.

Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrff a sefydlir gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) ("y Ddeddf").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â rheoliadau a oedd yn sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o'r Ddeddf. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a gorchmynion a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ